

Llythyrau Peredur Wyn at Arthur Meirion

gan William Owen, Borth-y-gest

Cloch y ffôn yn canu acw un bore.
Mrs Ifanwy Williams, cyn
bennaeth Adran y Gwasanaethau
Cymdeithasol dros Fro Dwyfor, un o
golofnau'r gymdeithas ym Mhorth-
madog a hyrwyddwraig llu o fudiadau
gwirfoddol, oedd ar y pen arall - 'Hoffech
chi ddod draw am goffi ryw ddiwrnod?
Mae gen i rywbeth i'w ddangos' ... a dyna
drefnu yn y fan a'r lle.

Roedd hi'n amlwg fod y wreigddda yn gwybod am fy ngwendid fel casglwr oblegid wedi i ni fynd yno a threulio egwyl yn rhoi'r byd yn ei le, estynnodd ffeil i mi. "Sgwn i fasa gennych chi ddiddordeb yn y rhain?" holodd. 'Cyfres o lythyrau wedi eu hysgrifennu gan Eifion Wyn oddeutu dechrau'r ganrif ddwytha' ylwch...'

Ond cystal, i ddechrau cychwyn, fyddai egluro peth o'r cefndir. Roedd Eifion Wyn a Chadwaladr Griffith, cigydd o'r Port a thaid i Ifanwy Williams, yn gyfeillion agos. Mynych, fin nos, y cyrchai'r bardd yno i 28, Heol Yr Wyddfa am sgwrs. Yn wir, yr oedd un o'r cadeiriau yr arferai eistedd arni yn ystod yr ymweliadau rheini wedi ei bedyddio gan y teulu fel *Cadair Eifion*.

Roedd un o ferched Cadwaladr, Margaret Griffith, sef mam Ifanwy, wedi priodi ac wedi symud gyda'r gŵr i fyw i Benbedw ar lannau Merswy. Bu iddynt naw o blant, Arthur Meirion yr hynaf, Ifanwy yr ieuengaf a bu'r bardd yn gohebu â'r teulu yno am nifer o flynyddoedd.

Ym mis Gorffennaf 1906 yr oedd Eifion Wyn wedi cyhoeddi *Telynegion Maes a Môr*



*Hoffais di yn ieuanc, Men,
Gŵyr fy nghalon a'th un dithau
(Telynegion Maes a Môr)*

ac afraid dweud i'r gyfrol gael derbynriad gwresog ym mhob cwr o'r wlad.

Roedd wedi bod yn canlyn 'Men' (Annie Jones, gynt o Abererch) ers peth amser, mae'n wir, er mai caru o hirbell ydoedd gan ei bod hi yn gweini ym Manceinion. Caru drwy lythyru fu eu tynged am nad oeddynt yn cael cyfarfod ond yn anaml. Ond cyn hir daeth amser meddwl am briodi.

(Trywydd na fwriedir ei ddilyn yma yw fod 'Men' arall cyn hynny wedi bod yn wrthrych serch Eifion Wyn. Gweler erthygl Dewi Williams Y Casglwr Rhif 44 Awst '91).

Y broblem fwyaf oedd casglu digon o gelc i'w galluogi i glosio at yr allor! Gwnaed peth elw mae'n wir, o werthiant y gyfrol er nad oedd hynny'n ddigon chwaith i chwyddo'r cynilion o fewn cyrraedd agos i'r nod a roesai Eifion ar gyfer yr achlysur.


Erbyn mis Mehefin 1907 nid oedd ond ychydig gopiau o'r gyfrol yn aros heb eu gwerthu allan o argraffiad o dair mil, ac er mwyn sicrhau ychydig rhagor o arian tuag at sefydlu cartref newydd, cafodd y syniad o gynnig gwerthu'r hawlfraint i'r Cyhoeddwyd yng Nghaernarfon. Ond fe'i gwrthodwyd a bu raid iddo roi'r cynnig i gyhoeddwyd eraill. Yr unig un a wnaeth gynnig pendant oedd yr *Educational Publishing Company*, Caerdydd. Ac fe werthodd yntau'r hawlfraint iddynt ym mis Hydref am y swm anrhydeddus o ugain punt yn unig!

Yna, ar Dachwedd 6, yng Nghapel Helyg ym mherfeddion Eifionydd priododd y ddau. Treuliwyd y mis mêl ym Metws y Coed a daethant i fyw i 28 Heol Newydd, Porthmadog. Ymhen y flwyddyn - ar ddiwrnod cadeirio J. J. Williams, yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen gyda llaw - ganed Peredur Wyn eu hunig blentyn. Ac yntau erbyn hynny'n ddeugain oed, yr oedd y bardd ar ben ei ddigon ac wedi gwirioni!

Fel yr oedd pethau'n digwydd bod, yr oedd Peredur Wyn ac Arthur Meirion, brawd hynaf Ifanwy, bron yr un oed. Ychydig wythnosau oedd rhyngddynt ac yn y pedwar llythyr sydd wedi goroesi, y mae Eifion Wyn yn cymryd arno ysgrifennu yn enw ei fab newyddanedig i'w ffrind bychan, nad oedd yntau ond ychydig fisoedd oed, ym Mhenbedw.

Prin y gellir haeru fod y llythyrau yn bwrw unrhyw fath o oleuni newydd ar waith y bardd o Borthmadog. Eto i gyd, o gofio ei fod yn ei ddydd yn cael ei ystyried yn greadur sych, syber, encilgar, anghymdeithasol, a fynnai gadw ei gydfforddion o hyd braich, y maent o leiaf yn tanlinellu yr elfen chwareus a'r hiwmor oedd yn rhan annisgwyl, hwyrach, o'i gymeriad.

Dyddiedig Hydref 2 1908 yw'r llythyr cyntaf. Gellir casglu iddi fod yn derfyn haf



Eifion Wyn

poeth y flwyddyn honno - hen dywydd diflas i fabanod ychydig fisoedd oed yn eu clytau!

F'anwyl Arthur Meirion,

Unwaith y gwelsom ein gilydd ond pery'r cariad rhyngom am oes, 'rwy'n disgwyl. Diolch i ti am y deth fach dlos a anfoneist i mi ddoe. Mae'n dlysach na'r un a welais erioed ond un Mam. Rwy'n edrych ymlaen am lawer o fwynhâd wrth ei sipian.

Cei dithau anrheg fach oddiwrthyf finnau cyn bo hir iawn - llyfr efallai fydd - yr ail argraffiad (dyna i ti glamp o air Cymraeg) o delynegion fy nhad...

Beth yw dy brofiad di Arthur am yr hin desog yma?

Cefais i ddiwrnod dipyn yn lluddedig ddoe, a bûm am oriau heb gysgu neithiwr. Hei lwc yr aiff y don wres yma heibio yn fuan. Mae arnaf eisiau cyntun yrŵan, felly rhaid i mi dewi drwy gofio'n gynnes iawn atat.

*Yr eiddot,
yn Gymroaidd.
Peredur Wyn.*

Yn y llythyr nesaf mae Eifion Wyn, ar dro, fel pe bai'n anghofio mai llythyru yn ysbryd plentyn bychain y mae, ac yn taro'r post er mwyn i rieni'r derbynnydd glywed a dwys ystyried. Mae'n mynegi pryder rhag i'w ffrind, ac yntau'n byw yn Lloegr, droi yn Sais.

28, Heol Newydd,
Porthmadog,
Ion. XIII 1909

F'anwyl Arthur,

Bu agos i mi ddweyd Arthur bach, ond yr wyt wedi mynd yn fwy na therfynau'r ansoddair hwnnw eisoes.

Clywais fy nhad yn sôn am ryw hen frenin o'r enw Arthur Fawr. A wyt yn ddisgynydd ohono, dywed? Bid a fo am hynny (chwedl y llenorion), y mae pob arwydd y bydd i ti dyfu'n fawr; ac mi garwn i ti dyfu'n frenin yn dy gylch.

Rwy'n falch iawn o dy lun, rhydd syniad da i mi am neilltuolion dy bryd a'th wedd ...cadwaf ef yn ofalus.